# Gaeafgwsg

# Gaeafgwsg



## Cyflwyniad:

Mae rhai anifeiliaid yn gaeafgysgu er mwyn eu helpu i oroesi drwy gyfnodau o straen amgylcheddol megis oerni eithafol y gaeaf a diffyg bwyd. Mae gaeafgysgu yn wahanol i gysgu oherwydd y ffordd y mae corff yr organeb yn gweithredu newid. Mae tymheredd corff anifail sy'n gaeafgysgu yn disgyn i bron yr un tymheredd â'u hamgylchedd, mae eu cyfradd calon a'u cyfradd anadlu'n arafu ac mae eu metaboledd hefyd yn arafu llawer. Mae hyn yn eu galluogi i ddefnyddio egni minimol i oroesi drwy gyfnodau a fyddai fel arall yn defnyddio llawer iawn o egni i'r anifail gadw'n gynnes. Cyn dechrau gaeafgysgu, mae'n rhaid i'r anifail baratoi drwy ychwanegu cymaint o fraster ag y bo modd drwy fwyta llawer iawn, a gan bod gaeafgwsg yn digwydd yn y gaeaf, gall anifeiliaid gymryd mantais o'r gormodedd o fwyd sydd ar gael ddiwedd yr haf.

Er bod gaeafgysgu wedi esblygu i gynyddu'r siawns fod anifail yn goroesi'r gaeaf, gall fod yn beryglus oherwydd y ffaith bod systemau'r corff yn arafu yn golygu na all rhai anifeiliaid ymateb yn gyflym, ac felly maent yn agored i ysglyfaethwyr. Gallant hefyd lwgu o ddiffyg braster, tywydd garw neu gael eu deffro'n rhy fuan cyn i fwyd ddod ar gael eto.

Yn y DU, mae mamaliaid megis draenogod, pathewod ac ystlumod yn ogystal ag amffibiaid ac ymlusgiaid yn gaeafgysgu. Efallai y byddech yn synnu o wybod bod rhai rhywogaethau pryfed hefyd yn gaeafgysgu, megis y glöyn byw mantell paun, trilliw bach, buwch goch gota, mamwenyn a chacwn.

Mae angen i anifeiliaid ddod o hyd i rywle diogel a chysgodol i dreulio'r gaeaf lle na fydd dim yn tarfu arnyn nhw a lle bydd y tymheredd yn aros yn sefydlog. Gallwch chi helpu drwy adeiladu cartrefi gaeafol ar gyfer bywyd gwyllt yn eich gardd neu ar dir eich ysgol.

**Geiriau allweddol er mwyn ymchwil pellach:**
Hafgwsg, syrthni, creu ffau, gaeafwisg, cysgadrwydd, hyperffagia, metaboledd, endotherm, ectotherm, ffenoleg - calendrau natur

# Adeiladu gwesty i bryfed

## Canllaw gweithgaredd:

Yr offer sydd ei angen:

- Printiwch y daflen, un i bob grŵp
- Paleti pren neu blanciau o bren
- Brics
- Hen boteli plastig
- Gwiail bambŵ
- Gwellt / dail / brigau / rhisglau / cerrig a cherrig mân
- Teils
- Cardfwrdd

**I adeiladu'r gwesty:**

Yr amser gorau i adeiladu gwesty i bryfed yw'r hydref gan fod y deunyddiau ar gael, ond gallwch eu hadeiladu unrhyw adeg.

1. Rhannwch y disgyblion i ychydig o grwpiau. Os oes gennych chi ddigon o offer, yna gall pob grŵp wneud eu gwesty eu hunain; os nad oes gallwch rannu'r tasgau, er enghraifft mae un grŵp yn llenwi'r poteli plastig, un grŵp yn pentyrru'r paleti, un grŵp yn plannu planhigion ar gyfer y top, gwneud yr arwydd, ac ati.

2. Pentyrrwch y paleti neu'r planciau o bren gan ddefnyddio'r brics rhwng pob haen fel eich bod yn creu nifer o adrannau petryal bach.

3. Llenwch yr adrannau gyda gwahanol gyfuniadau o eitemau, i greu gwahanol feintiau a mathau o fylchau a holltau.

4. Llenwch y bylchau gyda dail a gwellt.


5. Ychwanegwch blanhigion neu wair ar ben y pentwr o baleti.

6. Gellir addurno'r strwythur gorffenedig, ac o bosibl cynnwys arwydd i enwi'r gwesty neu luniau o bryfed, darlun ar bren a cherrig.


# Gwesty i bryfed

Helpwch bryfed i oroesi'r gaeaf drwy adeiladu gwesty i bryfed. Sicrhewch fod ganddo lawer o wahanol ddeunyddiau, bylchau a holltau fel bod nifer o wahanol fathau o bryfed yn gallu byw yno.


1) Mewn grwpiau, pentyrrwch eich paleti neu ddarnau mawr o bren rhwng y brics fel bod gennych adrannau bach.





2) Llenwch eich poteli plastig gyda'r gwiail bambŵ, neu gardfwrdd wedi'i rolio. Gwnewch bentyrrau o deils a brigau.



3) Llenwch y bylchau gyda gwellt, dail, brigau a cherrig mân. Gwnewch yr holl adrannau a llenwch bob un ohonynt. Ychwanegwch blanhigion ar y top.



Y chwilen gorniog yw'r rhywogaeth fwyaf o ran pryf sydd i'w chael yn y DU.

# Gaeafgwsg



## Canllaw gweithgaredd:

Yr offer sydd ei angen:

- Argraffwch y daflen waith 'Gaeafgwsg' ar gyfer pob disgybl

## Atebion - Paru gaeafgwsg

Draenog

Buwch goch gota

Glöyn byw mantell paun

Gwiber

Ystlum pedol mwyaf

Dw i'n hongian ben ucha'n isaf mewn grwpiau

Mae cyfradd fy nghalon yn arafu o 190 curiad y munud i 20 curiad y munud pan dw i'n gaeafgysgu

Rydym yn grwpio gyda'n gilydd yn ein miloedd

Pan ydym yn gaeafgysgu, rydym yn cau ein hadenydd i edrych fel dail wedi sychu er mwyn cadw'n ddiogel

Dw i'n gaeafgysgu o fis Hydref tan Chwefror, ac yna'n gwneud yn fawr o haul y gwanwyn er mwyn cynhesu

O dan risgl neu ddail y coed

Mewn ogofâu

Mewn grŵp gyda'n gilydd mewn twll yn y ddaear

Bylchau mewn siediau neu dyllau mewn coed

Pentyrrau o ddail a chompost

# Gaeafgwsg

**Rheolau'r gêm:** Parwch enw'r anifail gyda'r ffaith am ei aeafgysgu ac yna gyda lle mae'n gaeafgysgu. Lliwiwch y blychau sy'n cyfateb, yn yr un lliw.

Draenog

Buwch goch gota

Glöyn byw mantell paun

Gwiber

Ystlum pedol mwyaf

Dw i'n hongian ben ucha'n isaf mewn grwpiau

Mae cyfradd fy nghalon yn arafu o 190 curiad y munud i 20 curiad y munud pan dw i'n gaeafgysgu

Rydym yn grwpio gyda'n gilydd yn ein miloedd

Pan ydym yn gaeafgysgu, rydym yn cau ein hadenydd i edrych fel dail wedi sychu er mwyn cadw'n ddiogel

Dw i'n gaeafgysgu o fis Hydref tan Chwefror, ac yna'n gwneud yn fawr o haul y gwanwyn er mwyn cynhesu

O dan risgl neu ddail y coed

Mewn ogofâu

Mewn grŵp gyda'n gilydd mewn twll yn y ddaear

Bylchau mewn siediau neu dyllau mewn coed

Pentyrrau o ddail a chompost



Mae pob un o'r 17 rhywogaeth ystlum Prydeinig yn gaeafgysgu.